

# Gofal Eithriadol yn y 1000 diwrnod cyntaf

## Beth yw'r 1000 diwrnod cyntaf?



Dywed y wefan ‘The first 1,000 days (Mehefin 2022)’ bod 1000 diwrnod cyntaf baban yn holl bwysig gan fod eu hymennydd yn datblygu’n gyflymach yn ystod y 1000 diwrnod yma nag unrhyw adeg arall o’i fywyd. Yn ogystal â’i ymennydd, mae ei gorff a’i system imiwnedd yn datblygu’n gyflym o fewn y cyfnod yma hefyd. Mae’r 1000 diwrnod cyntaf yn cyfri o pan fydd babi yn cael ei genhedlu nes eu bod yn 2 flwydd oed.

Yn ôl ‘The best start for life a vision for the 100,01 critical days (2021)’ mae’n bwysig bod y fam yn cael beichiogrwydd iach; trwy roi maeth cywir i’r babi, lleihau straen a bod mewn amgylchedd iach sydd yn rhydd o gyffuriau a cham-drin. Mae’r ffordd mae babi yn cael ei ofalu am yn groth y fam yn effeithio ar ei ddatblygiad pan fydd yn cael ei eni a sut bydd yn dattblygu yn y dyfodol. Pan fydd y babi’n cael ei eni mae bwyd maethlon yn hanfodol bwysig yn ogystal â pherthnasau cariadus gydag oedolion, diogelwch ac amser chwarae mewn amgylchedd iach.

Mae’r 1000 diwrnod cyntaf yn gyfnod pwysig i ddatblygu sgiliau corfforol a chyfathrebu (The Best Start for Life 2021). Yn ôl ‘Why 1,000 days? (2022)’ gall maethiad gwael yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf achosi niwed i ymennydd plentyn sy’n datblygu, gan effeithio ar ei gallu i wneud yn dda yn yr ysgol ac ennill bywoliaeth dda, a’i gwneud yn anoddach i blentyn a’i deulu godi allan o dlodi.

Dywed ‘The Best Start for Life (2021)’ bod y 1,001 diwrnod cyntaf yn dyngedfennol i ddatblygu lles emosiynol a chorfforol, sgiliau cymdeithasol, galluoedd gwybyddol ac ieithyddol ac yn gosod sylfaen cadarn ar gyfer llwyddiant academaidd mewn bywyd unigolyn.

## Syniadau am weithgareddau



Yn ôl y wefan 'List of Sensory Play Activities (2021)' mae chwarae synhwyraidd yn bwysig i blant ifanc gan eu bod yn rhoi cyfleoedd diddiwedd iddynt ddatblygu a dysgu. Mae chwarae o bob math yn hanfodol ar gyfer datblygiad plant a dysgu cynnar. Mae chwarae yn gymorth i ddatblygu a gwella sgiliau echddygol, cydsymud a chanolbwyntio plant.

Yn ôl y wefan 'Why hands on learning is so important for your preschooler (2022)' rhaid annog plant i ddysgu trwy archwilio. I wneud hyn, mae'n bwysig eu bod yn cymeryd rhan mewn nifer o weithgareddau ymarferol. Mae gweithgareddau ymarferol yn gwella'r ffordd maent yn meddwl ac yn dysgu am yr hyn sydd o'i cwmpas trwy defnyddio eu synhwyrau. Trwy ddarllen ac edrych ar luniau maent yn canolbwyntio ac yn edrych, maent yn dysgu'n glywedol trwy wrando ar oedolyn yn darllen stori neu yn canu ac yn datblygu sgiliau cinesthetig wrth deimlo ei fod yn cymryd rhan trwy cyffwrdd gwahanol bethau.

Dywedir 'Loose Parts Play (2021)' bod chwarae rhannau rhydd yn darparu amgylchedd llawn gwrthrychau diddorol. Mae hyn yn cefnogi chwilfrydedd, creadigrwydd, dychymyg a dyfeisgarwch plant o bob oed a chyfnod. Trwy darparu gwrthrychau dydy plant ddim fel arfer yn chwarae gyda,mae galluogir iddynt neilltuo eu pwrpas a'u hystyr eu hunain i'r gwrthrychau maent yn chwarae gyda ac mae hyn yn caniatáu iddynt archwilio, creu a dychmygu. Dywedir hefyd bod chwarae gyda dwr yn hyrwyddo lles, hybu datblygiad corfforol, ysgogi dychymyg a chreadigrwydd, gwella datblygiad gwybyddol, datblygu sgiliau cyfathrebu a llefaredd ac yn annog datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Mae darllen a chanu yn adeiladu perthnasoedd ac yn datblygu sgiliau lleferydd ac iaith.

Gwnaeth y damcaniaethwr Elinor Goldshmied (1910-2009) creu basgedi trysor er mwyn hybu datblygiad babanod. Dywedir 'Hughes, A.M. (dim dyddiad)' maent yn cynnwys gwrthrychau gellir darganfod o gwmpas y tŷ neu sy'n cael eu hailgylchu ac yn cael eu gosod mewn basged i blentyn 5-

10 mis oed sydd yn eistedd.  Pan fyddant yr oedran yma mae pob chwarae yn archwiliad synhwyraidd trwy'r bysedd, y dwylo a'r ceg.  Mae eu syniadau yn parhau i gyfrannu at greu amgylchedd cyfoethog a meithringar lle gall babanod a phlant ifanc ffynnu yn feddyliol, yn emosiynol ac yn gorfforol.  Felly y mwyaf amrywiol yw'r deunydd, y mwyaf mae babanod yn cael eu ysgogi I cymeryd diddordeb a datblygu eu hymennydd.  (Getting to grips with loose-parts play (2019)'.

Damcaniaethwr arall sy'n pwysleisio pwysigrwydd dysgu ymarferol yw David Kolb.  Dywedir 'Mcleod, S (1970)' yn ôl damcaniaeth Kolb, mae profiad diriaethol, arsylwi adfyfyriol, cysyniadol haniaethol, ac arbrofi gweithredol yn ffurfio proses pedwar cam sy'n arwain at ddysgu effeithiol.  Mae damcaniaeth Kolb yn ymwneud â thwf personol a phersbectif y dysgwyr.  Mae Kolb yn esbonio bod gan gwahanol blant a phobl arddull dysgu penodol yn naturiol.

Yn ôl 'Miriam, M (2021)' mae'r holl weithgareddau yma yn hybu datblygiad a dealltwriaeth plentyn.  Wrth gynnig gweithgareddau hwylus maent yn gwella eu dealltwriaeth wybyddol o ddeunydd pwnc a sgiliau cymdeithasol.  Mae dysgu ymarferol yn rhan bwysig o blentyndod oherwydd dyma sut mae plant ifanc yn dysgu sgiliau yn anffurfiol cyn symud ymlaen i addysg ffurfiol.

Dywed y wefan 'What is the curiosity approach and why is it important (2021) bod y dull chwilfrydedd a chafodd ei greu gan Stephanie Barrett a Lyndsey Heller yn seiliedig ar ddysgu sy'n cael ei arwain gan y plentyn yn hytrach na chyfarwyddo a dweud wrth blant beth i'w wneud.  O ganlyniad, mae plant yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ac yn darganfod pethau drostynt eu hunain, gan arwain at fwy o hyder, meddwl beirniadol a galluoedd datrys problemau.  Dywedir y wefan hefyd bod y plant yn rhyngweithio mwy a'i gilydd a gwella eu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu.  Yn wahanol i feithrinfeydd arall, nid yw'r plant yn cael teganau plastig, ond yn hytrach eitemau cyffredin sydd wedi'u gwneud o bren neu ddeunyddiau naturiol eraill er mwyn hybu dychymyg (Berg, V. (2021).



*1 - Basgedi Trysor*

*https://theimaginationtree.com/baby-treasure-basket-12-months/*

# Amgylcheddau



Yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd babi mae'n bwysig bod yr amgylchedd sydd yn ei amgylchynu yn un positif a hapus.

Yn ôl 'The best start for life (2021)' mae beichiogrwydd iach yn paratoi'r ffetws ar gyfer bywyd iach. Dywedir hefyd, mae'r ffetws yn agored i'r amgylchedd o gwmpas y fam wrth iddo dyfu y tu fewn i'r groth; mae'n clywed, yn bwyta'r hyn y mae'r fam yn ei fwyta a gall fod yn agored i'r hyn y mae'r fam yn ei amlynu ei hun iddo yn ogystal ag ymateb pan fydd ei mam wedi cynhyrfu. Mae amgylchedd da yn dechrau yn y groth trwy maethloni'r babi'n gywir ac osgoi straen a cham-drin.

Dywed y wefan 'The First 1,000 days (Mehefin 2022)' gall bod yn newynog neu ddioddef straen neu gamdriniaeth yn ystod y cyfnod hwn gael canlyniadau hirdymor ar ddatblygiad plentyn. Gall amgylchedd anniogel neu afiach yn ystod y 1,000 o ddiwrnodau cyntaf gael canlyniadau hirdymor ar iechyd corfforol plentyn.

Mae'r wefan 'Health, well-being, learning and development (2019)' yn dweud bod amgylchedd cadarnhaol yn hyrwyddo datblygiad cyfannol pob plentyn. Mae dysgu a datblygiad plant yn cael eu dylanwadu gan eu hamgylchedd ffisegol. Mae'n hanfodol bod yr amgylchedd yn groesawgar, yn lân, yn ddiogel ac yn ysgogol. Mae'n bwysig creu amgylchedd sy'n ffafriol i chwarae a datblygu sgiliau gan fod plant yn dysgu trwy wneud, meddwl, gwrando, gwneud camgymeriadau, defnyddio eu synhwyrau, profi, ailadrodd a chael hwyl.

Dywedir 'A curriculum for funded non-maintained nursery settings (2021)' gall awyr agored ysbrydoli syndod a rhyfeddod tra hefyd yn caniatáu i blant fod yn nhw eu hunain mewn amgylcheddau agored, hamddenol ac ysgogol. Mae awyr agored yn darparu cyfleoedd cyfoethog a dilys i synhwyrau plant gael eu hysgogi trwy'r hyn y maent yn ei glywed, ei gyffwrdd, ei gweld a'i arogli.

Dywedir 'Wallis, N (2021)' bod y wybodaeth a gesglir am amgylchedd babanod yn cael ei ddefnyddio i siapio'r ymennydd yn unol â hynny. Dywedir y mwyaf cymhleth yw'r amgylchedd, y mwyaf cymhleth yw datblygiad yr ymennydd. Dywedir 'Innovation District (2017)' gall dylanwadau cadarnhaol, megis dod i gysylltiad â geirfa fawr a gwrthrychau newydd ysgogi twf ymennydd. Ar y

llaw arall, gall dylanwadau negyddol, megis esgeulustod ac ynysigrwydd cymdeithasol, fod yn niweidiol, a allai newid cwrs datblygiad yr ymennydd.

Yn ôl dull Montessori gan 'Lopez, K. (2016)' mae plant yn dysgu orau mewn amgylchedd sydd wedi'i baratoi i ganiatáu iddynt wneud pethau drostynt eu hunain. Dylai'r amgylchedd ddysgu fod yn blentyn canolog bob amser, gan ganiatau i blant archwilio deunyddiau o'u dewis. Dylai gweithwyr proffesiynol baratoi'r amgylchedd dysgu trwy wneud deunyddiau a phrofiadau yn hygyrch i fyfyrwyr mewn modd trefnus a hunangynhwysol. Yn ôl 'Nruiz (2018)' mae ystafelloedd dosbarth Montessori wedi'u cynllunio i ddarparu gwersi, gweithgareddau ac offer sydd wedi'u teilwra i anghenion a diddordebau datblygiadol pob plentyn.

Damcaniaethwr arall sydd yn debyg i ddamcaniaeth Montessori yw Froebel. Credir ef mewn addysg trwy weithgaredd ac ymholi. Roedd yn gweld blynyddoedd cynharaf bywyd plentyn fel y rhai mwyaf ffurfiannol a bod gan chwarae rôl hanfodol mewn datblygiad plentyn. (Tovey, H (dim dyddiad).

Yn ôl 'Merrick, B. (2022)' roedd Froebel yn credu bod ymarferwyr yn gyfrifol am yr amgylchedd ffisegol,- dan do ac yn yr awyr agored. Pwysleisiodd pwysicrwydd caniatau i blant ddysgu heb cael eu rhoi dan bwysau gan ymarferwyr. Dywedir hefyd dylid ymarferwyr arsylwi'r plant yn gyson a cymryd cam yn ôl er mwyn gweld sut maent yn chwarae a gweld y byd er mwyn adnabod eu diddordebau a datblygu'r diddordebau hyn ymhellach.

Dywedir 'Enabling Pathways Consultation (Enabling Environments) (2021)' bod rôl oedolyn yn hanfodol i gynnydd pob dysgwr, ond mae'n arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod hwn o ddysgu. Mae'r oedolyn yn gosod y disgwyliad dysgu drwy greu amgylcheddau emosiynol diogel lle gall dysgwyr ddechrau mynegi a rheoli eu teimladau a'u hymddygiad mewn ffyrdd cadarnhaol. Dywedir hefyd dylai amgylcheddau galluogi ac ysgogi dysgwyr i archwilio, datrys problemau, a datblygu eu creadigrwydd a'u sgiliau meddwl yn feirniadol. Dylai'r amgylchedd hefyd darparu cyfleoedd i'r plant myfyrio, yn ogystal â chreu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau echddygol bras a manwl wrth herio'u hunain yn gorfforol.



*2 - Dosbarthiadau Montessori*

*https://princetonmontessori.org/uncategorized/montessori-classroom-observation/*

# Datblygiad yr Ymennydd






*3 - Yn ôl ymchwil, mae 80% o ddatblygiad ymennydd plentyn yn digwydd o fewn y 1,000 diwrnod cyntaf o fywyd, gan wneud y 24 mis cyntaf o fywyd yn hanfodol ar gyfer iechyd gydol oes, dysgu a llwyddiant. Mae plant yn datblygu cysylltiadau ymennydd trwy eu profiadau bob dydd gan ddechrau ar enedigaeth. Cânt eu ffurfio trwy ryngweithio cadarnhaol â'u rhieni neu ofalwyr, yn ogystal â thrwy defnyddio eu synhwyrau i ryngweithio a'r byd - 'Brain Development (2023)'. Dywedir hefyd, bod y perthnasoedd sydd gan blentyn gyda'r oedolion yn eu bywyd yn cael y dylanwad mwyaf ar ddatblygiad ei ymennydd. Mae perthnasoedd cariadus gydag oedolion ymatebol, dibynadwy yn hanfodol ar gyfer datblygiad iach plentyn.*

*Dywedir yr erthygl 'The best start for life (2021)'mai rhai o'r profiadau pwysicaf a fydd yn siapio datblygiad ymennydd babi yw'r rhyngweithio ag oedolion arwyddocaol yn eu bywydau. Mae babanod yn rhyngweithio trwy faldod, mynegiant ar wyneb a symudiadau. Mae'r oedolion sy'n gofalu amdanynt yn ymateb yn garedig gyda synau ac ystumiau. Gelwir y broses hon yn 'serve and return' ac mae'n chwarae rhan hanfodol yn datblygiad gwifrau'r ymennydd. Mae'r fideo uchod yn dangos pwysigrwydd 'serve and return' a'r effeithiau mae'n cael ar ddatblygiad ymennydd.Serve & Return Interaction Shapes Brain Circuitry*[1]

[1] https://www.youtube.com/watch?v=m_5u8-QSh6A




*4 - [https://www.startingblocks.gov.au/other-resources/factsheets/brain-development-in-children](https://www.startingblocks.gov.au/other-resources/factsheets/brain-development-in-children)*

*ffynhonell: Google Images*

*Mae'r llun uchod yn dangos datblygiad o'r ymennydd o wahanol oedrannau. Wrth i'r plentyn fynd yn henach mae'r gwifrau yn yr ymennydd yn cysylltu ac mae hyn yn dangos bod y plentyn yn cael gofal eithriadol.*

## Bod yn gynhwysol



Dywed 'Lee, E. (2022)' mae cynhwysiant ac arfer cynhwysol yn y blynyddoedd cynnar yn cyfeirio at arferion sy'n sicrhau bod pawb yn 'perthyn'. Mae hyn yn cynnwys y plant a'u rhieni neu gofalwyr, staff ac unrhyw un arall sy'n ymwneud a'r lleoliad blynyddoedd cynnar. Dywed hefyd, bod pob plentyn yn unigryw ac yn datblygu ar ei gyflymder ei hun a dylid trin pob plentyn yn deg a thalu sylw i'w cefndiroedd, diddordebau ac anghenion unigol.

Yn ôl 'Equality and inclusive practice (2022)' dylai lleoliadau plentyndod cynnar fod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael a rhwystrau cynhwysiant fel negyddiaeth, rhagfarn a stereoteipio er mwyn bod yn ddarparwyr cynhwysol. Mae'n bwysig bod lleoliadau yn medru bod yn ymroddedig ac yn gallu bod yn gyfartal a chynhwysol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y gofal gorau posib. Dywedir y

wefan hefyd bod gan pob plentyn yr hawl i gael ei gynnwys.  Os daw plant i gysylltiad ag anghydraddoldeb yn ifanc, gall cael effaith hirdymor ar eu cyfleoedd bywyd, gan effeithio ar eu hunan-parch, eu hyder a'u hymddiriedaeth mewn eraill.

## Partneriaethau/Perthnasoedd Proffesiynol

Fel gweithwyr proffesiynol, mae'n bwysig creu perthnasau gyda'r plant sydd yn eich gofal a rhieni neu ofalwyr y plant hefyd.

Yn ôl 'An inclusive practice (2022)' rhaid i ddarparwyr gofal plant wneud yn siŵr bod pob plentyn yn eu gofal yn cael ei gynnwys.  Gan fod pob plentyn yn unigryw ac yn datblygu ar ei gyflymder ei hun, mae'n bwysig trin pob plentyn yn deg a rhoi sylw i'w diddordebau a'i hanghenion unigol yn hytrach na thrin pob plentyn yn yr un modd.

Yn ôl 'Relationships and child development (2020)' mae rhyngweithio cynnes a chariadus rhwng rhiant neu weithiwr meithrinfa yn meithrin hyder, gwyntwch a chyfathrebu plentyn.  Bydd angen y sgiliau hyn ar y plentyn i weithio trwy broblemau, delio â straen, a ffurfio perthnasau iach ag eraill.  Dywedir hefyd, mae ymlyniad cryf a pherthnasoedd yn gynnar mewn bywyd hefyd yn cynyddu siawns y plentyn o gael gwell iechyd meddwl a llai o broblemau ymddygiad yn ddiweddarach mewn bywyd.

Dywed y wefan 'The first 1,000 days (2022) bod tlodi yn ystod plentyndod yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd a llesiant gwael yn ddiweddarach mewn bywyd.  Gall hyn fod yn rhannol oherwydd y straen ariannol ar rieni sydd yn eu hatal rhag darparu'r lefel o ofal sydd angen ar eu babi.

Mae'r llun isod yn dangos theori Bronfenbrenner (1977) sydd yn cynnwys lefelau gwahanol o amgylcheddau a pherthnasau.  Trefnodd y diagram yn nhrefn pwysicrwydd i blentyn.  Yr haen gyntaf sef y Microsystem yw'r un mwyaf uniongyrchol o'r systemau nythu, ac mae'n cynnwys perthnasoedd dynol unigolyn, rhyngweithio rhyngbersonol, a'r amgylchoedd uniongyrchol.  Wrth medru ffurfio perthnasau gyda'i rhiant neu gofalwr, bydd yn medru ffurfio perthnasau gydag athrawon ysgol ayyb.  Dylid ffurfio perthynas gyda phlentyn a'i rhieni ac amgylchedd yr ysgol (Williams, D. (2022).  Os nad yw'r camau yma yn cael eu cyflawnu yna bydd datblygiad y plentyn ddim yn ffynnu a bydd e ddim yn cyrraedd ei  llawn potensial.




*5 - Diagram Bronfenbrenner*

*https://cormac404.wordpress.com/2017/05/18/some-thoughts-on-an-ecological-perspective-of-social-media-research/*

## Gofal Parchus a Dysgu Ystyrlon



Yn ôl yr erthygl 'Supporting-quality-interactions-during-care-giving-routines-Birth-3-years (dim dyddiad)' mae babanod a phlant bach yn cyfathrebu'n ddi-eiriau gyda symudiad, ystumiau a mynegiant wyneb, yn ogystal ag ar lafar gyda synau a geiriau. Mae bod yn ymwybodol o'r mynegiant

hyn ac ymateb iddynt yn dysgu plant eu bod yn bwysig a'ch bod ar gael ac yn barod i ryngweithio gyda nhw.

Dywed y wefan 'Change and chat quick tips (2012)' bod amser newid cewynau yn amser hanfodol ar gyfer cyfathrebu. Dyma'r cyfleoedd cyntaf i'ch babi ddysgu sut i gymryd tro mewn sgyrsiau ac mae hyn yn gosod sylfaen cadarn ar gyfer cyfathrebu a datblygu lleferydd yn y dyfodol. Wrth i fabi wybod ei fod yn mynd i gael ei fwydo, cael digon o gwsg a cael ei cewyn wedi ei newid drwy gyfathrebu ag oedolyn sydd yn gwybod ei anghenion, mae'n cael y gofal gorau ac yn datblygu fel y dylai ac yn cael gofal eithriadol.

## Ymagweddau Rhyngwladol




Mae ymagwedd Reggio Emilia at addysg plentyndod cynnar yn rhoi plant wrth y llyw, gan ystyried nhw fel unigolion chwilfrydig sydd â'r gallu a'r potensial i ddatblygu a dysgu o'u hamgylchedd a'r perthnasoedd maent yn eu ffurfio ag eraill.

Yn ôl 'The benefits of a Reggio Emilia preschool' (dim dyddiad), mae dull Reggio Emilia yn fudd i'r plant gan ei bod yn credu bod plant yn gallu datrys problemau yn well, ymgysylltu â'u cymuned a'u hamgylchedd, croesawu profiadau newydd, adeiladu sgiliau cymdeithasol, mynegi eu hunain yn hyderus, a mwynhau dysgu. Mae Reggio Emilia yn cymryd agwedd gyfannol at addysg. Dywed y wefan 'Reggio inspired approach (2019) mae gofalwyr yn gwrando ar blant, gan roi amser iddyn nhw feddwl am syniadau wrth arsylwi. Mae diddordebau'r plant yn cael eu defnyddio i gynllunio'r camau nesaf a phrosiectau'r dyfodol.

Serch hynny, dywed y wefan 'Which educational philosophy would suit your child the most? (2017)' mae'n anodd iawn dangos i rieni beth mae eu plant wedi dysgu oherwydd bod dysgu wedi'i gyfeirio

gan y plentyn ac yn seiliedig ar brosiectau.  Nid oes unrhyw daflenni gwaith yn cael eu hanfon adref i ddangos beth mae eu plentyn wedi dysgu.

 Mae cwricwlwm Te Whairki yn debyg i Reggio Emilia gan fod y plant yn cael eu gweld fel dysgwyr hyderus a chymwys o'u genedigaeth.  Maent yn dysgu trwy ryngweithio a phobl, lleoedd, a gwrthrychau ac mae'n broses sydd yn para trwy eu bywydau cyfan  (Home – education in New Zealand (2017).'  Mae cwricwlwm Te Whairki yn ffocysu ar rymuso, datblygiad cyfannol, teulu a'r gymuned a pherthnasau.



*6 - I grynhoi, mae darllen am damcaniaethau gwahanol bobol am y 1000 diwrnod cyntaf wedi bod yn ddiddorol ac yn addysgiadol.  Mae pob un a'i syniadau unigryw eu hunain ynglyn a datblygiad plentyn ac yn rhoi pwyslais ar gwahanol bethau.  Serch hynny, mae un peth yn gyffredin ganddynt i gyd, sef eu argyhoeddiad bod y gofal eithriadol yn ystod y diwrnodau cyntaf ym mywyd plentyn yn hanfodol bwysig ac yn dylanwadu ar bob agwedd o'i ddatblygiad.*

## Cyfeiriadau


*[McLeod, S. (1970) [John Bowlby maternal deprivation theory] (February 2017) , John Bowlby | Maternal Deprivation Theory - Simply Psychology. Ar gael:* https://www.simplypsychology.org/bowlby.html[2] *(Cyrchwyd: Ionawr 15, 2023).*

*A curriculum for funded non-maintained nursery settings (2021) UWTSD moodle 2022/23: Log in to the site. Welsh Government. Ar gael:* https://moodle.uwtsd.ac.uk/course/view.php?id=9761[3] *(Cyrchwyd: Ionawr 18, 2023).*

*Admin (2021) Loose parts play, Only About Children. Ar gael:* https://www.oac.edu.au/news-views/loose-parts-play/[4] *(Cyrchwyd: Ionawr 5, 2023).*

*An inclusive practice (2022) PACEY. Ar gael:* https://www.pacey.org.uk/parents/the-best-care-for-your-child/an-inclusive-


[2] https://www.simplypsychology.org/bowlby.html
[3] https://moodle.uwtsd.ac.uk/course/view.php?id=9761
[4] https://www.oac.edu.au/news-views/loose-parts-play/

practice/?gclid=Cj0KCQiA8aOeBhCWARIsANRFrQHZYAzSHa7p07nWGtpfl83sWfsIF-d2H0QO0KvuqYivE2U2QNco6SoaAgoBEALw_wcB[5] *(Cyrchwyd: Ionawr 19, 2023).*

*Babies in Lockdown: listening to parents to build back better (August 2020). Best Beginnings, Home-Start UK, and the Parent-Infant Foundation. Ar gael:* *https://moodle.uwtsd.ac.uk/course/view.php?id=9761* *(Cyrchwyd Ionawr 5 2023)*

*Berg, V. (2021) the Curiosity approach to early years learning , Daynurseries.co.uk. DAY NURSERIES. Ar gael:* https://www.daynurseries.co.uk/advice/the-curiosity-approach-to-early-years-learning[6] *(Cyrchwyd: Ionawr 19, 2023).*

*Brain development (2023) First Things First. Ar gael:* https://www.firstthingsfirst.org/early-childhood-matters/brain-development/#:~:text=At%20birth%2C%20the%20average%20baby's,center%20of%20the%20human%20body.[7] *(Cyrchwyd: Ionawr 19, 2023).*

*Education recovery in early years providers: Spring 2022 (2022) GOV.UK. Ar gael:* https://www.gov.uk/government/publications/education-recovery-in-early-years-providers-spring-2022/education-recovery-in-early-years-providers-spring-2022[8] *(Cyrchwyd: Ionawr 5, 2023).*

*Enabling Pathways Consultation (Enabling Environments) (2021) UWTSD moodle 2022/23: Log in to the site. Welsh Government . Ar gael:* https://moodle.uwtsd.ac.uk/course/view.php?id=9761[9] *(Cyrchwyd: Ionawr 19, 2023).*

*Equality and inclusive practice (2022) early years alliance. matrix. Ar gael:* https://www.eyalliance.org.uk/equality-and-inclusive-practice#:~:text=To%20be%20an%20inclusive%20provider,to%20be%20equal%20and%20inclusive.[10] *(Cyrchwyd: Ionawr 20, 2023).*

*Getting to grips with loose parts play (2019) PACEY. Ar gael:* https://www.pacey.org.uk/news-and-views/pacey-blog/2019/march-2019/getting-to-grips-with-loose-parts-play/[11] *(Cyrchwyd: Ionawr 18, 2023).*

*Health, Well-being, Learning and Development (dim dyddiad) |WJEC CBAC- City Guilds. Ar gael:* http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/hsc18-19_3-2/_multi-lang/unit02/02-feature-of-a-positive-environment-that-takes-account-of-childrens-

[5] https://www.pacey.org.uk/parents/the-best-care-for-your-child/an-inclusive-practice/?gclid=Cj0KCQiA8aOeBhCWARIsANRFrQHZYAzSHa7p07nWGtpfl83sWfsIF-d2H0QO0KvuqYivE2U2QNco6SoaAgoBEALw_wcB
[6] https://www.daynurseries.co.uk/advice/the-curiosity-approach-to-early-years-learning
[7] https://www.firstthingsfirst.org/early-childhood-matters/brain-development/%23:~:text=At birth%2C the average baby's,center of the human body.
[8] https://www.gov.uk/government/publications/education-recovery-in-early-years-providers-spring-2022/education-recovery-in-early-years-providers-spring-2022
[9] https://moodle.uwtsd.ac.uk/course/view.php?id=9761
[10] https://www.eyalliance.org.uk/equality-and-inclusive-practice%23:~:text=To be an inclusive provider,to be equal and inclusive.
[11] https://www.pacey.org.uk/news-and-views/pacey-blog/2019/march-2019/getting-to-grips-with-loose-parts-play/

needs.html#:~:text=A%20positive%20environment%20encourages%20the,%2C%20clean%2C%20safe%20and%20stimulating[12]. *(Cyrchwyd Ionawr 12, 2023)*

*Home – education in New Zealand (2017) Te Whariki Early Childhood curriculum . Ministry of Education, New Zealand. Ar gael:* https://www.education.govt.nz/assets/Documents/Early-Childhood/ELS-Te-Whariki-Early-Childhood-Curriculum-ENG-Web.pdf[13] *(Cyrchwyd: Ionawr 19, 2023).*

*Hughes, A.M. (dim dyddiad) Elinor Goldschmied & treasure baskets, Froebel Trust. Ar gael:* *https://www.froebel.org.uk/training-and-resources/elinor-goldschmied-treasure-baskets (*Cyrchwyd: *Ionawr 18, 2023).*

*Innovation District (2017) How the environment helps to shape the brain - children's national, Innovation District. Innovation District Ar gael:* https://innovationdistrict.childrensnational.org/environment-helps-shape-brain/[14] *(Cyrchwyd: Ionawr 15, 2023).*

*Kelly et al. (2016) 10 biggest challenges you face working in childcare, Early Years Careers. Ar gael:* https://www.earlyyearscareers.com/eyc/early-years-management/10-biggest-challenges-you-face-working-in-childcare/[15] *(Cyrchwyd: Ionawr 5, 2023).*

*Lee, E. (2022) What is inclusive practice?, CPD Online College. Ar gael:* https://cpdonline.co.uk/knowledge-base/safeguarding/inclusive-practice/#:~:text=any%20extracurricular%20activities.-,What%20is%20inclusive%20practice%20in%20early%20years%3F,years%20setting%20in%20some%20way.[16] *(Cyrchwyd: Ionawr 20, 2023).*

*List of sensory play activities (2021) Learning 4 Kids. Learning 4 kids. Ar gael:* https://www.learning4kids.net/play-ideas/exploring-activities/list-of-sensory-play-ideas/[17] *(Cyrchwyd: Ionawr 5, 2023).*

*Lopez, K. (2016) Pedagogy profile: The montessori method, Supply Desk. Ar gael:* https://www.supplydesk.co.uk/resource/pedagogy-profile-montessori-method/#:~:text=The%20Montessori%20method%20suggests%20that,explore%20materials%20of%20their%20choice.[18] *(Cyrchwyd: Ionawr 17, 2023).*

*Mcilroy, T. (2022) Why hands-on learning is so important for your preschooler, Empowered Parents. Ar gael:* https://empoweredparents.co/hands-on-

---

[12] http://resource.download.wjec.co.uk.s3.amazonaws.com/vtc/2018-19/hsc18-19_3-2/_multi-lang/unit02/02-feature-of-a-positive-environment-that-takes-account-of-childrens-needs.html#:~:text=A positive environment encourages the,%2C clean%2C safe and stimulating

[13] https://www.education.govt.nz/assets/Documents/Early-Childhood/ELS-Te-Whariki-Early-Childhood-Curriculum-ENG-Web.pdf

[14] https://innovationdistrict.childrensnational.org/environment-helps-shape-brain/

[15] https://www.earlyyearscareers.com/eyc/early-years-management/10-biggest-challenges-you-face-working-in-childcare/

[16] https://cpdonline.co.uk/knowledge-base/safeguarding/inclusive-practice/%23:~:text=any extracurricular activities.-,What is inclusive practice in early years%3F,years setting in some way.

[17] https://www.learning4kids.net/play-ideas/exploring-activities/list-of-sensory-play-ideas/

[18] https://www.supplydesk.co.uk/resource/pedagogy-profile-montessori-method/%23:~:text=The Montessori method suggests that,explore materials of their choice.

learning/#:~:text=Hands%2Don%20learning%20is%20a,experience%20the%20world%20around%20them.[19] *(Cyrchwyd: Ionawr 7, 2023).*

*Mcleod], [S. (1970) [Kolb's learning styles and experiential learning cycle], Simply Psychology. Available at:* https://www.simplypsychology.org/learning-kolb.html[20] *(Cyrchwyd: Ionawr 19, 2023).*

*Merrick, B. (2022) Friedrich Froebel, Early Education. Ar gael: https://early-education.org.uk/friedrich-froebel/#:~:text=Froebel%20believed%20that%20practitioners%20also,important%20as%20what%20we%20learn.*[21] *(Cyrchwyd: Ionawr 21, 2023).*

*Miriam, M. (2021) The importance of hands-on learning, The Thinking Kid. The Thinking Kid. Ar gael:* https://www.thethinkingkid.org/post/the-importance-of-hands-on-learning *(Cyrchwyd: Ionawr 6, 2023).*

*Nruiz (2018) Montessori childcare: The importance of a prepared environment, Silverline Montessori. Ar gael:* https://silverlinemontessori.com/montessori-childcare-the-importance-of-a-prepared-environment/[22] *(Cyrchwyd: Ionawr 17, 2023).*

*Reggio inspired approach (2019) Immaculate Tots. ofsted. Ar gael:* https://immaculatetots.co.uk/reggio-inspired-approach/#:~:text=The%20Reggio%20Emilia%20Approach%20emphasises,to%20the%20world%20around%20them.[23] *(Cyrchwyd: Ionawr 20, 2023).*

*Relationships and child development (2020) Raising Children Network. Ar gael:* https://raisingchildren.net.au/guides/first-1000-days/loving-relationships/relationships-development[24] *(Cyrchwyd: Ionawr 19, 2023).*

*Schoenmakers S;Verweij EJJ;Beijers R;Bijma HH;Been JV;Steegers-Theunissen RPM;Koopmans MPG;Reiss IKM;Steegers EAP; (dim dyddiad) The impact of maternal prenatal stress related to the COVID-19 pandemic during the first 1000 Days: A historical perspective, International journal of environmental research and public health. U.S. National Library of Medicine. Ar gael :* https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/35457577/[25] *(Cyrchwyd: Ionawr 12, 2023).*

*StartingBlocks_ (2022) Brain development in children, Starting Blocks. Ar gael:* https://www.startingblocks.gov.au/other-resources/factsheets/brain-development-in-children *LLUN (Cyrchwyd: Ionawr 21, 2023).*

*Supporting quality interactions during care-giving routines (dim dyddiad) Supporting-quality-interactions-during-care-giving-routines-Birth-3-years-.pdf. Aistear Siolta. Ar gaelt:*

---

[19] https://empoweredparents.co/hands-on-learning/%23:~:text=Hands-on learning is a,experience the world around them.
[20] https://www.simplypsychology.org/learning-kolb.html
[21] https://early-education.org.uk/friedrich-froebel/%23:~:text=Froebel believed that practitioners also,important as what we learn.
[22] https://silverlinemontessori.com/montessori-childcare-the-importance-of-a-prepared-environment/
[23] https://immaculatetots.co.uk/reggio-inspired-approach/%23:~:text=The Reggio Emilia Approach emphasises,to the world around them.
[24] https://raisingchildren.net.au/guides/first-1000-days/loving-relationships/relationships-development
[25] https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/35457577/

https://www.kkccc.ie/wp-content/uploads/2018/01/Supporting-quality-interactions-during-care-giving-routines-Birth-3-years-.pdf[26] *(Cyrchwyd: Ionawr 20, 2023).*

*The benefits of a reggio emilia preschool (dim dyddiad) KLA Schools of Hillsboro. Ar gael:* https://www.klaschools.com/hillsboro/the-benefits-of-a-reggio-emilia-preschool#:~:text=Benefits%20of%20a%20Reggio%20Emilia%20preschool%20The%20Reggio%20Emilia%20educational,with%20confidence%2C%20and%20enjoy%20learning.[27] *(Cyrchwyd: Ionawr 19, 2023).*

*The Best Start to Life HM Government (2021) Ar gael:* *https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/973112/The_best_start_for_life_a_vision_for_the_1_001_critical_days.pdf* *(Cyrchwyd: Rhagfyr 30, 2022)*

*The first 1,000 Days (Mehefin 2022) Pregnancy, Birth and Baby. Ar gael at:* https://www.pregnancybirthbaby.org.au/the-first-1000-days#:~:text=1%2C000%20days'%3F-,The%20first%201%2C000%20days%20refers%20to%20a%20child's%20life%20from,effect%20on%20your%20baby's%20future.[28] *(Cyrchwyd: Rhagfyr 24, 2022).*

*Tovey, H. (dim dyddiad) Froebel principles and practice today, A FROEBELIAN APPROACH. Froebels trust. Ar gael:* https://www.froebel.org.uk/uploads/documents/FT-Froebels-principles-and-practice-today.pdf[29] *(Cyrchwyd: Ionawr 17, 2023).*

*Wallis, N. (2021) Did you know that a child's first 1000 days are the most important? - montessori pre-school and nursery serving Colindale, Edgware & St Albans UK, Fountain Montessori. Ar gael :* https://fountainmontessori.com/did-you-know-that-a-childs-first-1000-days-are-the-most-important/[30] *(Cyrchwyd: Ionawr 13, 2023).*

*Which educational philosophy would suit your child the most? (2017), Spielgaben. Spielgaben. Ar gael: https://spielgaben.com/educational-philosophy-suit-child-montessori-waldorf-reggio-emilia/#:~:text=The%20Cons%20of%20Reggio%20Emilia,their%20letters%20of%20the%20alphabet.*[31] *(Cyrchwyd: Ionawr 21, 2023).*

*Why 1,000 Days (2022) 1,000 Days. FHI Solutions LLC. Ar gael:* https://thousanddays.org/why-1000-days/[32] *(Cyrchwyd: Rhagfyr 30, 2022).*

*Williams, D. (2022) Child development theories: Urie Bronfenbrenner, First Discoverers. Ar gael:* https://www.firstdiscoverers.co.uk/child-development-theories-urie-bronfenbrenner/[33] *(Cyrchwyd: Ionawr 19, 2023).*

[26] https://www.kkccc.ie/wp-content/uploads/2018/01/Supporting-quality-interactions-during-care-giving-routines-Birth-3-years-.pdf
[27] https://www.klaschools.com/hillsboro/the-benefits-of-a-reggio-emilia-preschool%23:~:text=Benefits of a Reggio Emilia preschool The Reggio Emilia educational,with confidence%2C and enjoy learning.
[28] https://www.pregnancybirthbaby.org.au/the-first-1000-days%23:~:text=1%2C000 days'%3F-,The first 1%2C000 days refers to a child's life from,effect on your baby's future.
[29] https://www.froebel.org.uk/uploads/documents/FT-Froebels-principles-and-practice-today.pdf
[30] https://fountainmontessori.com/did-you-know-that-a-childs-first-1000-days-are-the-most-important/
[31] https://spielgaben.com/educational-philosophy-suit-child-montessori-waldorf-reggio-emilia/%23:~:text=The Cons of Reggio Emilia,their letters of the alphabet.
[32] https://thousanddays.org/why-1000-days/
[33] https://www.firstdiscoverers.co.uk/child-development-theories-urie-bronfenbrenner/